

11 Mawrth 2008

## Cyflawniad pobl 15 mlwydd oed yng Nghymru: Adroddiad Cenedlaethol PISA 2006

Mae'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) yn arolwg o gyflawniad addysgol pobl 15 mlwydd oed mewn gwyddoniaeth, mathemateg a darllen, a drefnir gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD).

Fe gymerodd Cymru ran yn yr arolwg am y tro cyntaf yn PISA 2006, gyda chanlyniadau yn cael eu cyflwyno gan 124 o ysgolion a dros 3,000 o fyfyrwyr. Bu 57 o wledydd ynghlwm â'r astudiaeth; roedd y rhain yn cynnwys 30 o aelodau OECD a 25 o aelodau yr Undeb Ewropeaidd.

Prif ganlyniadau am Wyddoniaeth:

- Roedd sgôr cyfartalog myfyrwyr yng Nghymru yn debyg i gyfartaledd OECD
- Roedd gan Gymru ystod eang o gyrhaeddiad o'i gymharu â nifer o'r gwledydd eraill - (tra bod rhai yn cyrraedd y lefel uchaf o gyrhaeddiad, roedd nifer sylweddol o fyfyrwyr wedi sgorio'n isel)
- Roedd sgôr Cymru yn 22ain yn rhyngwladol (pan yn edrych ar y DU ar wahân)

Prif ganlyniadau am Fathemateg:

- Roedd y sgôr cyfartalog yng Nghymru yn is na'r cyfartaledd OECD
- Roedd sgôr Cymru yn 34ain

Prif ganlyniadau am Ddarllen:

- Roedd cyfartaledd Cymru yn is na'r cyfartaledd OECD
- Roedd sgôr Cymru yn 30ain yn rhyngwladol
- Roedd yr ystod o gyrhaeddiad yn debyg i'r cyfartaledd OECD, er i lai o fyfyrwyr gyrraedd y lefelau uchaf o gyrhaeddiad na nifer o'r gwledydd eraill

Gwahaniaethau rhwng y rhywiau:

- Fe wnaeth y bechgyn yn well na'r merched yn y meysydd Mathemateg a Gwyddoniaeth, ond nid wrth Ddarllen

### Gwybodaeth bellach

Mae gwybodaeth bellach am PISA ar gael ar [wefan OECD](#).

### Cyswllt

Ffôn: 029 2082 5060

E-bost: [school.stats@wales.gsi.gov.uk](mailto:school.stats@wales.gsi.gov.uk)